

Trefi SMART Powys


Rhyngwrwyd Pethau ar gyfer Trefi

Beth yw'r Rhyngwrwyd Pethau (IoT)?

Gall dyfeisiadau IoT electronig bach, wedi'u pweru gan fatri, ddweud wrthyhych beth sy'n digwydd yn eich tref, y funud hon. O fannau parcio cerbyd trydan (EV) i ansawdd aer a hyd yn oed rhybuddion llifogydd, mae'r dyfeisiadau clyfar hyn yn siarad â chi trwy apiau ffôn a dangosfyrddau fel y gallwch wneud penderfyniadau ar sail gweithgaredd a mesuriadau gwirioneddol y dref.

Sut mae'n gweithio?

Mae dyfeisiadau IoT yn mesur gwahanol agweddau yn ymwneud â'ch busnes ac yn trosglwyddo i borth lleol gan ddefnyddio'r system LoraWAN. Mae'r porth yn anfon y mesuriad i ddangosfwrdd ar y Rhyngwrwyd lle gall cynghorau tref a busnesau weld y wybodaeth ar unwaith ar eu ffonau a'u cyfrifiaduron. Noddir y pyrth gan Lywodraeth Cymru a chynghorau sir.



Enghreifftiau

Parcio	Mae'r synwryddion wedi'u gosod ar fannau parcio. Maent yn caniatáu i'r cyhoedd adrodd am fannau gwefru cerbydau trydan a manau parcio anabl yn ogystal â monitro byw ar gyfer gorfodi lle bo angen.	
Atal llifogydd	Mae synwryddion yn monitro lefelau afonydd lleol ac yn cael eu defnyddio i roi rhybuddion cynnar o lifogydd posibl, gan ganiatáu mwy o amser i baratoi ac atal difrod.	
Ansawdd Aer	Mae aer glân yn hanfodol i fyw'n iach. Mae busnesau'n elwa ar siopwyr bodlon, hapus. Mae'r synwryddion hyn yn dangos tueddiadau a lefelau llygredd ar unwaith, sy'n galluogi penderfyniadau gwybodus.	
Monitro Biniau	Mae biniau'n gorlifo yn hyll ac yn denu fermin. Mae synwryddion lefel yn anfon rhybuddion pan fydd biniau'n llenwi er mwyn caniatáu gwell rheolaeth ar sbwriel a strydoedd glanach.	
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB)	Mae datrysiadau i helpu i reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu datblygu. Gallant rybuddio am ymddygiad swllyd a chynlluniau anghyfreithlon. Mae hyn yn galluogi'r heddlu i ymateb yn well i ddiwyddiadau mewn trefi.	
Monitro Hapusrwydd	Mae botymau syml a osodir mewn adeiladau cyhoeddus ac wrth allanfeydd siopau yn galluogi cwsmeriaid i bleidleisio ar wasanaeth da neu fel arall. Mae hyn yn helpu sefydliadau i wella eu gwasanaeth cwsmeriaid.	

Sut i Elwa ar IoT

Mae yna lawer o wahanol fathau o synwryddion IoT a all helpu i ddatrys problemau yn eich tref ar y pryd.

Y dull gorau yw ymgysylltu â'r busnesau a'u cymuned i gasglu rhestr o broblemau a fyddai'n fuddiol i'w datrys. Yna ymgysylltu ag ymarferydd IoT i helpu gyda'r heriau technegol a'r datrysiadau.

Sut i'w gael

Bydd y dewis o synwryddion a lleoliad porth yn gofyn am ychydig o gymorth arbenigol. Mae'r cymorth hwn ar gael drwy'r cyngor lleol a sefydliadau cymorth.

Yn y lle cyntaf, cysylltwch â Hwb Menter Ffocws y Drenewydd drwy eu gwefan.

focusenterprise hubs.wales neu ffôn **01686 806349**